Gwasanaeth Parseli Synhwyraidd

Ysbrydolwyd y blwch hwn gan yr arddangosfa gyfredol yn Oriel MOSTYN yn Llandudno.
Enw'r artist yw Jacqueline de Jong a theitl yr arddangosfa yw "The Ultimate Kiss."
Mae hi'n artist mynegiadol!
Cewch fynd i weld ei harddangosfa yn Oriel MOSTYN tan 6 Chwefror 2022 a chewch ganfod rhagor am ei gwaith hi a rhagor o syniadau creadigol isod:
https://www.mostyn.org/sites/www.mostyn.org/files/JDJ-ENG-WEB.pdf

Mae'r wybodaeth a'r dolenni ar gael yma hefyd:
https://www.tickylowe.com/makingsensehome/

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys rhodd o ddeunyddiau celf ansawdd uchel ar gyfer eich sesiynau creadigol gan Making Sense CIC – Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda gan Ticky, Making Sense CIC!

Cynnwys

Paent
Brwshis
Sbwngau
Papur
Ffyn
Deunyddiau gwneud brwshis
Mowntiau cardfwrdd

Syniadau gweithgareddau

Dyma rai syniadau mynegiadol ar gyfer defnyddio'r deunyddiau yn y blwch. Mae croeso i chi ddilyn eich syniadau eich hun ac anghenion synhwyraidd y bobl rydych chi'n rhoi cymorth iddynt hefyd.

Offer gwneud marciau

Mae'r pecyn yn cynnwys ffyn a detholiad o ddeunyddiau synhwyraidd. Cewch chi a'r bobl rydych chi'n rhoi cymorth iddynt greu eich offer gwneud marciau eich hunain ar gyfer paentio gyda nhw.
Archwiliwch y deunyddiau gyda'ch gilydd a gwneud eich brwshis unigryw eich hunain trwy gysylltu'r deunyddiau ar y ffyn gyda llinyn neu fandiau elastig.
Yna rhowch gynnig ar eich offer newydd ar bapur!
Gellid cadw'r rhain a'u defnyddio eto!

Paentio mynegiadol

Mae paentio yn medru bod yn weithgaredd sy'n ymlacio a rhoi boddhad, a gellir ei wneud fel grŵp neu'n unigol. Mae'r arddull mynegiadol yn canolbwyntio ar fwynhau gwneud marciau, lliwiau a symudiad!

'Does dim rhaid iddo edrych fel unrhyw beth!

Gallech roi cynnig ar baentio tra'n gwrando ar wahanol fathau o gerddoriaeth – cerddoriaeth araf – cerddoriaeth gyflym – i weld sut mae'n effeithio ar y ffordd rydych chi'n paentio.

Cewch gyfyngu'r lliwiau i un neu ddau yn unig, neu ddim ond du a gwyn.

Defnyddiwch ddigonedd o ddŵr i wneud i'r paent lifo.

Os yw darn o bapur gwag yn codi braw, dechreuwch gyda llinell igam-ogam ar draws y dudalen neu siâp ar hap!



Fframio

Pan fydd eich paentiadau'n sych defnyddiwch y mowntiau cardfwrdd yn y pecyn i edrych am gyfansoddiadau diddorol yn eich arlunwaith i'w torri allan a'u fframio hyd yn oed!

Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**
Gwasanaethau Ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu
Seamless services for people with Learning Disabilities

MOSTYN

making sense CIC